**PWYLLGOR ARCHWILIO 11-03-10**

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Gwilym Williams (Cadeirydd);
Y Cynghorydd Huw Edwards (Is-gadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** E.T. Dogan, Tom Ellis, Margaret Griffith, Dafydd Ll. Hughes, R.L. Jones, Eryl Jones-Williams, John P. Roberts, Ioan Thomas

**Hefyd yn Bresennol:** Dewi Morgan (Uwch Reolwr Archwilio a Risg), William E. Jones (Uwch Reolwr Cyllid), Amanda Hughes (Rheolwr Lleol Swyddfa Archwilio Cymru), Gwyn Parry Williams (Swyddog Pwyllgor).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Selwyn Griffiths, Brian Jones, Charles W. Jones, Gethin Williams a Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid)

Profedigaeth
Cyfeiriodd y Cadeirydd at y brofedigaeth a ddaeth i ran Dewi Morgan yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg ym marwolaeth ei dad yng nghyfraith a chydymdeimlodd ag ef a'r teulu yn eu colled.

**1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Datganodd yr aelodau canlynol fuddiant personol yn yr eitemau canlynol am y rhesymau a nodir –

Y Cynghorwyr E.T. Dogan, Huw Edwards, Tom Ellis, Margaret Griffith, Dafydd Ll. Hughes, R.L. Jones, Eryl Jones-Williams, John P. Roberts, Ioan Thomas a Gwilym Williams yn yr eitem Trefniadau Recriwtio Staff Ategol ac Athrawon Llanw Ysgolion Cynradd gan eu bod yn lywodraethwyr ysgolion cynradd.

Y Cynghorydd Dafydd Ll. Hughes yn yr eitem Anabledd Dysgu, Llety Addas i Fyw (Cynllun Tair Blynedd) gan ei fod yn nyrs cymunedol gyda phobl ag anabledd dysgu.

'Roedd yr aelodau o'r farn nad oeddynt yn fuddiannau a oedd yn rhagfarnu ac ni adawsant y cyfarfod a chymerwyd ran lawn yn y drafodaeth ar yr eitemau perthnasol.

**2. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 14 Ionawr 2010, fel rhai cywir.

**3. SYSTEM COFNODI ASEDION Y CYNGOR (CYLLID)**

Cyflwynwyd adroddiad yr Uwch Reolwr Cyllid, yr adroddwyd i'r pwyllgor hwn ar 28 Medi 2009, yn sgîl adroddiad ar Gyfrifon Terfynol y Cyngor 2008/09, bod yr Uned Gyfalaf a Rheolaeth o'r Adran Gyllid yn y broses o weithredu system newydd ar gyfer cofnodi asedau'r Cyngor i bwrpas rheolaeth gyllidol.

Nododd bod angen am system newydd yn deillio o newidiadau a gofynion newydd Datganiad Ymarfer Argymelledig CIPFA 2007 (y “SORP – Statement of Recommended Practice”) sy’n amlinellu’r angen i baratoi a chyfrifo am asedau mewn dull gwahanol. Mae’r prif newidiadau yn ymwneud â sicrhau bod prisiau hanesyddol, yn ogystal â chyfredol, yn cael eu cadw ar gyfer pob ased. Mae hyn wedyn yn cael effaith ar gyfrifiad yr elw/colled wrth waredu eiddo a hefyd manylion ychwanegol parthed amhariad a gwelliannau.

Hysbysodd y swyddog nad oedd yr hen system, ar ffurf taenlen Excel, yn addas erbyn hyn i ymdopi â’r gofynion newydd, ac ‘roedd yn hanfodol ystyried systemau pwrpasol. Ystyriwyd tair system pwrpasol a gwahoddwyd y tri cyflenwr i gyflwyno eu system i grŵp bach o ddefnyddwyr. Penderfynwyd ar system “IPF Asset Manager.net”, sef system sy’n cael ei redeg gan gwmni sydd wedi ei berchen yn gyfan gwbl gan CIPFA. Seiliwyd y penderfyniad ar –
a) Addasrwydd a’r gallu i gyflawni’r gofynion perthnasol.
b) Berthynas gyda CIPFA a’r holl gysylltiadau sector cyhoeddus traddodiadol ac felly’r sefyllfa unigryw i allu defnyddio ymchwil ac arweiniad CIPFA i sicrhau bod y meddalwedd yn glynu at anghenion ariannol a’r gallu i ddiweddaru yn y dyfodol.
c) Hyblygrwydd i’r dyfodol pe byddai’r Gwasanaeth Eiddo yn awyddus i ymuno â’r system
ch) Pris.

Nododd y cafwyd hyfforddiant cychwynnol gan y cwmni, gyda’r bwriad o ddechrau’r gwaith o drosglwyddo data o’r system presennol i’r system newydd yn ystod ail hanner y flwyddyn ariannol 2008/09. Yn anffodus, cafwyd trafferthion wrth i’r cwmni geisio mapio’r data rhwng y ddwy system a arweiniodd at oediad yn yr amserlen wreiddiol. Yn dilyn o hynny, ‘roedd rhaid cwblhau’r ymarferiad cau cyfrifon am 2008/09 gyda’r hen system. Yn dilyn y broses cau cyfrifon 2008/09 gyda phenodiad newydd mewn swydd berthnasol i gynorthwyo gyda’r gwaith, llwyddwyd i symud ymlaen yn sylweddol gyda’r broses, sydd erbyn hyn yn tynnu at ei therfyn. Bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn gwirio’r system newydd cyn i’r broses cau cyfrifon 2009/10 ddechrau.

Er yn gyffredinol, nid yw’r broses trosglwyddo wedi bod mor esmwyth a obeithiwyd yn wreiddiol ac mae rhai agweddau o’r system newydd wedi bod yn siomedig, bwriedir i’r Cofrestr Asedion (Cyllid) newydd fod yn weithredol ar gyfer proses cau cyfrifon 2009/10.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod parthed trosglwyddo 6,000 o dai Cyngor i Gartrefi Cymunedol Gwynedd, hysbysodd y swyddog yn ddelfrydol byddai bob ased yn cael ei gofnodi’n unigol ac yn sgîl y trosglwyddiad bydd yr holl eiddo hyn yn cael eu dileu o restr asedion y Cyngor.

Gofynnodd aelod pa feddalwedd oedd cynghorau eraill yn ei ddefnyddio. Mewn ymateb hysbysodd Rheolwr Lleol Swyddfa Archwilio Cymru y byddai’n bosibl gwneud ymholiadau gyda’r cynghorau eraill.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

## 4. MABWYSIADU SAFONAU ADRODD ARIANNOL RHYNGWLADOL (IFRS) YN Y SECTOR CYHOEDDUS

Cyflwynwyd adroddiad yr Uwch Reolwr Cyllid. Rhoddwyd amlinelliad o'r anghenion mabwysiadu Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) yn y sector cyhoeddus i'r pwyllgor hwn ym Mawrth 2008. Nododd y swyddog mai cysondeb a chymaroldeb rhwng adroddiadau ariannol ar draws y byd yw'r budd o symud at IFRS. Bydd Llywodraeth Ganolog a'r Gwasanaeth Iechyd yn paratoi eu datganiadau ariannol ar gyfer 2009/10 ar sail IFRS. Mae'n ofynnol i Lywodraeth Leol gydymffurfio â'r anghenion newydd ar gyfer datganiadau ariannol o 2010/11 ymlaen. Er hynny, mae'r angen am ffigurau cymharol yn y datganiadau ariannol hyn yn golygu ail-ddatganiad o wybodaeth 2009/10 a'r fantolen ar 31 Mawrth 2009 ar sail IFRS.

Rhoddodd y swyddog fanylion am y prif wahaniaethau rhwng datganiadau ariannol dan yr Ymarfer Cyfrifeg Cyffredinol Derbyniol (GAAP) sy'n bodoli yn y DU a'r anghenion newydd dan IFRS fel a ganlyn –
a) Adnabyddiaeth a mesuriad unrhyw Fenter Cyllid Preifat a chytundebau tebyg.
b) Adnabyddiaeth a mesuriad trefniadau prydlesu.
c) Croniad ar gyfer unrhyw hawliau gweithwyr i absenoldebau gwaith, fel gwyliau blynyddol, sydd heb eu defnyddio ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.
ch) Gofynion manylach ar gyfer cyfrifo am asedau sefydlog gan gynnwys dadansoddi eiddo i gydrannau, gwerthusiadau ac adolygiadau o asedau mwy aml a newidiadau mewn categoriau o'r asedau i'w dangos.
d) Adroddiad rhannol sy'n dadansoddi canlyniadau'r flwyddyn rhwng rhannau'r busnes, sydd fel arfer yn adlewyrchu strwythur rheolaethol neu adrannau busnes y sefydliad.
dd) Anghenion datgeliad ychwanegol. Cynyddwyd hyd cyfartal datganiadau cyfrifeg y sector preifat 50% yn dilyn y newid i IFRS.
e) Mae'r adnoddau sydd eu hangen er mwyn gweithredu'r gofynion newydd hyn am gael effaith ariannol ar y Cyngor.

Nododd y cyhoeddwyd "*The Code of Practice on Local Authority Accounting in the United Kingdom 2010/11 Based on International Financial Reporting Standards*" yn barod er mwyn galluogi awdurdodau lleol i ailddatgan eu datganiadau ariannol cyn 2010/11. Sefydlwyd tîm prosiect, ac mae'r gwaith asesu'r effaith, gosod amserlen a chasglu'r wybodaeth angenrheidiol yn mynd rhagddo. Mewn perthynas â'r weithred gynlluniedig, nid oes gofyn statudol ar gyfer cwblhau'r gwaith ailddatgan heblaw am y gofyn i gyhoeddi'r ffigurau a ailddatganwyd yng nghyfrifon 2010/11 erbyn 30 Mehefin 2011. Fodd bynnag, bwriedir cwblhau'r gwaith ailddatgan erbyn 30 Medi 2010 a chwblhau'r archwiliad o'r wybodaeth a ailddatganwyd erbyn 31 Rhagfyr 2010. Byddai hyn yn galluogi adeiladu unrhyw wersi a ddysgwyd i mewn i'r broses cau ar gyfer datganiadau ariannol 2010/11 ac i gasglu'r wybodaeth angenrheidiol ar gyfer datganiad o'r cyfrifon cyntaf sy'n cydymffurfio gyda IFRS o fewn yr amserlen arferol.

Cyfeiriodd aelod at y ffaith bod blwyddyn gwyliau staff yn dechrau ar y mis y'i penodwyd gyda'r Cyngor ac felly nid yw ofynnol i'r mwyafrif o'r staff gymryd eu gwyliau erbyn diwedd mis Mawrth. Gofynnodd beth yw effaith hyn ar y datganiadau ariannol o'i gymharu â'r hen drefn gwyliau o 1 Ebrill i 31 Mawrth. Mewn ymateb, hysbysodd y swyddog pe byddai'r hen drefn gwyliau'n bodoli, byddai'n rhwyddach i sefydlu gwerth y gwyliau heb eu cymryd ar ddiwedd Mawrth i bwrpas y cyfrifon, o'i gymharu â'r drefn a fodolai ar hyn o bryd i'r

mwyafrif, lle mae'r blwyddyn wyliau'n rhedeg o dyddiad penodiad e.e os y penodwyd swyddog i ddechrau gweithio gyda'r Cyngor ar 1 Medi, yna byddai'r flwyddyn gwyliau yn rhedeg o 1 Medi i 31 Awst.

'Roedd aelod arall o'r farn y dylid gofyn i'r Cyngor fynd yn ôl i'r hen drefn gwyliau sef o 1 Ebrill i 31 Mawrth yn flynyddol. Fodd bynnag, barn y mwyafrif o'r aelodau eraill oedd bod y drefn bresennol i weld yn gweithio'n foddhaol.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad, nodi'r cynnydd hyd yma a chefnogi'r weithred gynlluniedig.**

## 5. CYNNYRCH YR ADAIN ARCHWILIO MEWNOL

**Gwaith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod hyd at 31 Ionawr 2010**

Cyflwynwyd adroddiad yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn amlinellu gwaith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod rhwng 1 Rhagfyr 2009 a 31 Ionawr 2010. Wrth gyflwyno'r wybodaeth am y gwaith a gwblhawyd yn ystod y cyfnod cyfeiriodd y swyddog at -

- 17 o adroddiadau ffurfiol am archwiliadau o'r cynllun archwilio blynyddol gyda'r categori barn berthnasol yn cael ei ddangos.
- 2 archwiliad pryd y cynhyrchwyd memoranda, yn hytrach nag adroddiad llawn.
- 1 archwiliad dilyniant.
- 1 archwiliad ymatebol

Adroddwyd ar waith pellach sydd ar y gweill gan Archwilio Mewnol. 'Roedd hyn yn cynnwys 7 o adroddiadau drafft sydd wedi eu rhyddhau a 29 o archwiliadau sy'n mynd rhagddynt.

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiadau yn unigol ac yn ystod y drafodaeth cyfeiriwyd at y materion canlynol –

**Ysgolion Cynradd – Trefniadau Recriwtio Staff Ategol ac Athrawon Llanw**

Adroddodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg bod yr archwiliad hwn wedi derbyn barn categori C. Nododd yr edrychwyd yma ar y broses o recriwtio staff ategol ac athrawon llanw yn ysgolion cynradd Gwynedd. Y prif ddarganfyddiadau yn deillio o'r archwiliad oedd nad oedd bob amser ddigon o brawf yn bodoli yn yr ysgolion i gefnogi bod y Panel Penodi/Corff Llawn yn ran o'r broses recriwtio staff gan nad oedd yr ysgolion yn cadw digon o dystiolaeth o'r broses. Gofynnwyd i'r Adran Addysg anfon at bob ysgol yn egluro darganfyddiadau'r archwiliad ac yn rhestru'r argymhellion y disgwylir i bod ysgol ei weithredu wrth benodi staff.

Gofynnodd aelod am ddiffiniad o athro llanw. Mewn ymateb, hysbysodd y swyddog y gwahaniaethir yn yr adroddiad archwiliad rhwng staff ategol ac athrawon llanw tymor byr a thymor hir. 'Roedd aelod arall o'r farn y dylai'r Adran Addysg gynnwys yn y llythyr a anfonir at yr ysgolion, fanylion am ddiffiniad o gyfnod llanw.

Cyfeiriodd aelod at y cymal ym marn yr archwiliad sy'n cyfeirio at y ffaith y dinistrir manylion sydd ar ddogfennau CRB ar ôl chwe mis oni bai bod

rheswm penodol tros eu cadw am gyfnod hwy. Mewn ymateb, hysbysodd y swyddog bod y Ddeddf Diogelu Data yn nodi na ddylid cadw manylion am unrhyw unigolyn yn hwy na'r hyn sy'n berthnasol.

**Trefniadau Eithrio o'r Gyfundrefn Hyfforddi Corfforaethol**

Gofynnodd aelod beth oedd y cyfiawnhad tros i rai swyddogion beidio â mynychu hyfforddiant. Mewn ymateb, hysbysodd y swyddog i'r Cyngor eisoes fabwysiadu matrics hyfforddi. Cyfeiriodd at y ffaith bod rhai swyddogion yn cael eu heithrio gan eu rheolwyr rhag mynychu ambell i hyfforddiant ar y sail nad yw'n berthnasol i'w swyddi. Mewn sawl achlysur 'roedd hyn yn rhesymol ond 'roedd enghreifftiau eraill lle 'roedd rheolwyr yn caniatau eithriadau o'r fath er bod yr hyfforddiant mewn meysydd lle'roedd angen datblygu sgiliau, ac 'roedd hynny'n tanseilio holl ethos y Cyngor o ddatblygu staff. 'Roedd hyfforddi a datblygu sgiliau staff yn un o brif flaenoriaethau'r Cyngor. Nododd iddo dderbyn cais gan Adnoddau Dynol i roddi cyflwyniad i'r Coleg Uwch Reolwyr ar y mater ac y byddai'n cyfleu pryder y pwyllgor hwn i'r cyfarfod hwnnw.

Tynnwyd sylw gan aelod bod y mwyafrif o'r cyrsiau/hyfforddiant yn cael eu cynnal yng Nghaernarfon a gofynnodd a fyddai'n bosibl cynnal rhai ohonynt yn Nolgellau. Mewn ymateb, hysbysodd y swyddog y cynhelir cyrsiau yng Nghaernarfon a Phenrhyndeudraeth.

**Praeseptau**

Parthed trosglwyddo tai Cyngor i'r cwmni newydd, cyfeiriodd aelod at y ffaith iddo ddarganfod drwy'r Trysorlys a'r Cynulliad nad oedd y sefyllfa pensiynau yn hollol glir ar gyfer y staff a drosglwyddir ac y gallai hynny fod wedi creu costau aruthrol i'r Cyngor. Datganodd bryder y gallai hyn achosi risg i'r Cyngor. Mewn ymateb, hysbysodd yr Uwch Reolwr Cyllid y byddai'n ofynnol i'r diffyg pensiwn ar adeg y trosglwyddiad gael ei ariannu gan y Cyngor. Nododd y byddai maint unrhyw ddiffyg yn adlewyrchu sefyllfa'r farchnad yn gyffredinol.

Cytunwyd i nodi pryderon yr aelodau ynglyn â'r sefyllfa.

**Cydymffurfiaeth gyda'r Côd Cysylltiad (CoCo)**

Gofynnodd aelod os oedd y system Citrix wedi gwella erbyn hyn. Mewn ymateb, hysbysodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg iddo drafod y mater gyda'r Uwch Reolwr Technoleg Gwybodaeth a Thrawsnewid Busnes. Mae'r Cyngor wedi ymuno â Rhwydwaith Band Eang y Sector Cyhoeddus a olygai y datblygir y system yn y misoedd nesaf.

**Casglu Data Gwasanaethau Cymdeithasol at Bwrpasau Rheoli Perfformiad**

Adroddodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg bod yr archwiliad hwn wedi derbyn barn categori C. Cafodd y mater hwn beth sylw gan yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol a hefyd o fewn yr Adolygiad ar y Cyd. Nododd bod trefniadau ar y gweill o fewn yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol i wella'r trefniadau a archwiliwyd gyda'r Uned Fusnes a sefydlwyd.

**Plant – Lwfansau Mabwysiadu, Gorchymyn Preswyl a Gwarcheidiaeth Arbennig**

Rhoddodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg amlinelliad o fwriad, cwmpas a phrif ddarganfyddiadau'r archwiliad. Derbyniodd yr archwiliad barn categori C oherwydd na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn y weinyddiaeth.

Tynnwyd sylw gan aelod at y broses hir o dalu i rieni a gofynnodd a fyddai'n bosibl cymryd camau i wella'r broses. Mewn ymateb, hysbysodd yr Uwch Reolwr Cyllid bod y Cyngor wedi penderfynu cymryd camau yn gyffredinol i dalu i gredydwyr ynghynt ac i'r camau hyn gael eu canmol o sawl cyfeiriad, yn arbennig yn ystod y cyfnod o ddirwasgiad diweddar.

**Gorwariant Integreiddio – Addysg**

Adroddodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg mai bwriad yr archwiliad ymatebol hwn yw darganfod sut y bu i orwariant sylweddol ar y gyllideb integreiddio disgyblion gydag anghenion addysgol arbennig i'r prif-lif ddod i'r amlwg yn ystod yr adolygiad ail chwarter, a pha ffactorau sydd wedi cyfrannu at y gorwariant, a'r methiant i'w ddarganfod yn gynharach. Mewn perthynas â'r prif ddarganfyddiadau, gwelwyd twf sylweddol yn yr oriau integreiddio a gyflawnwyd. Nododd y bwriedir cynnal ymchwiliad pellach gan arbenigwyr annibynnol i agweddau o'r tueddiadau a'r gofynion yn y maes o'i gymharu ag awdurdodau eraill. Disgwylir adroddiad i'r Grŵp Arweinyddiaeth ar hynny yn ystod 2010.

Croesawodd aelod y gwaith hwn 'Roedd o'r farn bod y gyfundrefn 3* yn system dda pan y'i sefydlwyd, ond iddi gael ei chamddefnyddio gan ambell i ysgol tros y blynyddoedd.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiadau ar waith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Rhagfyr 2009 i 31 Ionawr 2010 a chefnogi'r argymhellion a gyflwynwyd eisoes i reolwyr y gwasanaethau perthnasol er gweithrediad.**

**6. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2009/10**

Cyflwynwyd adroddiad yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn rhoddi diweddariad ar y sefyllfa gyfredol o ran cwblhau cynllun archwilio mewnol 2009/10.

Rhoddodd fanylion am y sefyllfa fel ag yr oedd ar 28 Chwefror 2010 yn ogystal â'r amser a dreuliwyd ar bob archwiliad hyd yma. Tynnwyd sylw at y tabl canlynol sy'n datgelu statws cyfredol y gwaith yn y cynllun gweithredol -

| **Statws yr Archwiliad** | **Nifer** |
|---|---|
| Wedi ei gynllunio | 17 |
| Staff wedi eu clustnodi | 1 |
| Crewyd papurau gwaith | 6 |
| Gwaith maes ar y gweill | 21 |
| Cwblhawyd Gwaith Maes | 4 |
| Disgwyl Adolygiad | 2 |
| Adroddiad drafft | 7 |
| Adroddiad terfynol | 48 |

| | |
|---|---|
| Cyfanswm | **106** |
| Wedi ei ganslo | 6 |

Ar sail statws yr archwiliadau ar 28 Chwefror 2010, rhoddodd y swyddog fanylion am yr archwiliadau hynny o gynllun gweithredol 2009/10 na fyddai'n debygol o gael eu cwblhau. Golygai hynny y disgwylir y bydd 99 allan o 106 archwiliad yn y cynllun gweithredol yn cael eu cwblhau, sef 93.4%. Nododd bod hynny ychydig yn brin o'r targed o 95%, ond mae ymadawiad dau uwch archwiliwr yn ystod chwarter olaf 2009/10 wedi golygu methu'r targed o ddau archwiliad.

Mewn perthynas ag addasiadau i'r cynllun, hysbysodd y swyddog y gwnaed rhai addasiadau i'r cynllun archwilio gweithredol ers cyfarfod blaenorol y pwyllgor.

Gofynnodd aelod beth yw'r diffiniad o Ysgolion Bro. Mewn ymateb, hysbysodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg mai ysgolion yw'r rhain sy'n derbyn grant ychwanegol gan y Cynulliad i'w cynorthwyo i ddatblygu gweithgareddau a chyfleusterau ar gyfer y gymuned leol.

Mewn perthynas â fformiwlau cost uned gwasanaethau cymdeithasol, gofynnodd aelod am eglurhad ar y mater hwn. Mewn ymateb, hysbysodd y swyddog bod y mater hwn yng nghynllun gweithredu'r Adolygiad ar y Cyd sef bod angen cynnal adolygiad o gostau uned y gwasanaethau cymdeithasol.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad fel diweddariad o gynnydd yn erbyn cynllun archwilio 2009/10.**

## 7. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL DRAFFT 2010/11

Cyflwynwyd adroddiad yn rhoddi manylion am gynllun drafft o waith yr Adain Archwilio Mewnol am y flwyddyn ariannol 2010/11 fel y gallai'r aelodau leisio barn arno a'i gymeradwyo, yn ddarostyngedig i drafodaethau pellach gydag uwch swyddogion.

Eglurodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg bod Côd Ymarfer CIPFA ar gyfer Archwilio Mewnol mewn Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2006 yn datgan y “dylai'r Pwyllgor Archwilio gymeradwyo, ond nid cyfeirio, y cynllun archwilio”. Mae'r adroddiad yn egluro'r ffactorau a ystyriwyd a'r broses dechnegol a ddefnyddiwyd wrth drefnu'r cynllun cyn ei gyflwyno i'r pwyllgor.

Yn y cyfarfod ar 20 Rhagfyr 2007, cymeradwywyd Strategaeth Archwilio Mewnol 2008-2011 gan y Pwyllgor Archwilio. Defnyddir y strategaeth yma fel sail i waith Archwilio Mewnol am y cyfnod dan sylw ac mae'n egluro sut y bydd gwaith Archwilio Mewnol yn cynnig sicrwydd am y rheolaethau mewnol sydd yn eu lle o fewn Cyngor Gwynedd.

Ar sail dadansoddi'r adnoddau staffio sydd ar gael, gan gynnwys ystyried cyllidebau rhesymol ar gyfer gweithgareddau “di-gynnyrch” megis gwyliau, salwch, rheolaeth a chyfarfodydd, rhagwelir y bydd 1,557 diwrnod o adnoddau archwilio ar gael i gwblhau'r cynllun archwilio. Mae hyn ar ôl ystyried darpariaethau ar gyfer cyngor ar reolaethau a phriodoldeb, gwaith ymatebol a gwaith dilyniant.

Nododd y defnyddir camau systematig i baratoi cynllun archwilio ar sail risg a rhoddodd fanylion am y camau hynny, fel sicrwydd i'r pwyllgor bod rhesymeg tu ôl i ddatblygiad y cynllun.

Bwriedir cynnal trafodaethau gyda'r penaethiaid adran a'r rheolwyr perthnasol cyn dechrau ar yr archwiliadau ac fe ymgorfforir eu hawgrymiadau yn y cynllun terfynol.

Ar gais gan aelod, cytunwyd i gynnwys yr Unedau Iaith Cynradd ac Uwchradd yn y cynllun.

Nododd aelod bod amryw o'r materion a nodir yn atodiad 2 o'r adroddiad wedi eu cynnwys eisoes yng nghynllun 2009/10 a gofynnodd am eglurhad am hynny. Mewn ymateb, hysbysodd y swyddog bod gwahanol resymau tros eu cynnwys yng nghynllun 2010/11. Cynhwyswyd rhai oherwydd bod amodau ariannu'n gofyn am archwiliad blynyddol, eraill am iddynt lithro o 2009/10 ac eraill oherwydd eu bod yn archwiliadau o feysydd o risg uchel.

Mewn perthynas â Cist Gwynedd, tynnwyd sylw gan aelod bod 90% o'r rhai sy'n derbyn nawdd ariannol o'r corff hwn ddim yn anfon pobl ar gyrsiau/ hyfforddiant ac y dylid rhoddi sylw i hynny.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Cynllun Archwilio drafft ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2010 i 31 Mawrth 2011, yn ddarostyngedig i fân addasiadau i'w gwneud gan yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg, mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Cyllid, yn deillio o drafodaethau pellach gyda swyddogion.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 11.30am